

Llên Natur

Bwletin 102 Awst 2016



gan gynnwys Llygad y Dydd mewn partneriaeth â chymdeithas Gwaith Maes

Heboglys hirflewog *Hieracium holosericium* yn tyfu ar y creigiau uwchben Craig yr Ysfa 12 Gorffennaf 2013. Prin iawn yng Nghymru, mae'n tyfu hefyd yn y mynyddoedd yn Yr Alban.

Wendy McCarthy



Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd (Rhif Elusen: 1126027)

Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter. Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk


Un o brosiectau Cymdeithas Edward Llwyd

Llifogydd yng Nghaernarfon....

..... ymhen canrif (Bwl. 100 t.5) - a chanrif (dda) yn ôl Caernarfon 13 Chwefror 1899: *HIGH TIDES AND FLOODS.*—*In consequence of the phenomenal high tides of last week—the highest for 40 years—many of the lower streets in the town were flooded. especially Bank-street and Crown street and boats had to be requisitioned to convey food to the occupants, who were confined to the upper rooms. Water found its way to the Union Foundry, and the men were compelled to give up work. Boats also plied under the castle walls, and a flat, under the [...] of Captain Robert Evans, ran on the landing stage near the Anglesey Inn, and sustained considerable damage. The wind on Monday evening [13 Chwefror 1899], too, was strong, and some damage was caused to the roofs of houses, and a storm of thunder and lightning swept over the town.* Herald 17.02.1899.

Chwarel Trwyn y Fwch ddoe a heddiw

Ym **Mwletin 101** cawson ni hanes tinwennod y garn yn nythu yn y chwarel brysur hon yn yr 1901. Dyma ddau lun yn dangos y newid a fu ers tua 1980. Meddai Gareth Pritchard "Fe gai'r cynnyrch ei lwytho i longau drwy 'hoppers' a welir yn y llun uchaf. Chwalwyd y cyfan yn 1987 (lechyd a Diogelwch-hwnna ydi o!). Mae'r llun isaf yn dangos sut mae'r fan yn edrych heddiw (Mehefin 8fed, 2016)". Gareth Pritchard



Lle chwech...llyffant!

Yn y trofannau mae digonedd o ddŵr i lyffaint yn ystod y tymor gwlyb, ond pan ddaw'r tymor sych mae eu dewis yn gyfyngedig – dŵr rhydlyd o dyllau turio'r ffermydd. Felly os ewch chi i'r tŷ bach allanol yn y nos, well i chi fynd â golau. (llun gan Marion O'Hara Kossatz, **llyffantod dringol Litoria**).

Peter Edwards



Gorthyfai yn gorfaethu?



7 Mehefin 2016, Ion gefn Prysgol i Pontrug. Y planhigyn yn dechrau colli ei flodau. DB

Mae **Country Diary y Guardian** yn ddiweddar wedi dweud bod y gorthyfai yn tra-arglwythiau'r fwyfwy yn y cloddiau, yn rhannol oherwydd torri ochrau'r ffyrdd heb godi'r sbarion a hyn sydd yn gorfaethu'r pridd.

Trowynt yng Nghonwy



WHIRLWIND.—*During a squall near the Oakwood Park Hotel, Conway [llun] on Monday afternoon [28 Awst 1899] a curious incident was*

observed. In a cornfield some sheaves of oats were observed to be gyrating and then to ascend to a height of from 100 to 150 feet. A workman who had put his coat on his shoulders had the garment lifted from his back and carried to a considerable height being deposited some distance away....

Trowynt mwyaf Cymru erioed - Prydain yn wir - oedd Trowynt **Cilfynydd. yn ol gwefan Alan George:** "Men were lifted from their feet and dashed to the ground"...Roofs were lifted several miles. A hayrick weighing several tons was carried for a mile. Near Pontypridd half a ton of brick chimney was carried several hundred yards. It was associated with a thunderstorm that was seven miles wide, although the tornado was only about a hundred yards wide. The death toll is Britain's highest for a Tornado.

Trowyntoedd eraill yng Nghymru

Llyn y Gadair 47 (tud. 1)

Abergeirw 48 tud 8

Llanddeusant (2006) 50 tud. 2

Glannau Merswy (2014) tud. 2

Dewch a'ch cofnodion atom i ni weld pa fathau o dopograffeg sydd yn eu cynhyrchu fwyaf.

Graffitis Cymraeg ia!



Caernarfon mis Mehefin 2016. Dyma enghreifftiau eraill o graffiti Cymraeg neu Gymreig yn yr Oriol:

Waunfawr

Cen

genod droog

llong

eira ar y Wyddfa

Rhosgads

Cofnodi'r mêl



Oes gwerth mewn casglu cofnodion cynnyrch mêl y gwenynwyr a'u cymharu o flwyddyn i flwyddyn? Dyma amcangyfrif bras o gynnyrch Liz a Gavin Gatehouse yn Abergwyngregyn.

blwyddyn	pwysi	sawl cwch	pwysi/cwch
2011	28	1	28
2012	37	1	37
2013	115	2	57
2014	40	2	20
2015	49	2	25

Er fod Gavin a Liz yn awyddus i bwysleisio mai amcangyfrif yw'r mesuriadau hyn mae hi'n amlwg bod y cnwd fêl ar ei orau yn 2013 (ar ol gwanwyn oer a hwyr gyda llaw- gweler graff Dyfodiad y Gwanwyn yn y rhifyn diwethaf (tud. 2)).

Beth yw data cyffelyb rhai o wenywyr eraill Cymru? Oedd 2013 yn flwyddyn dda i bawb arall (er gwaetha'r gwanwyn oer)? Byddwn â diddordeb mawr gweld a chyhoeddi eich data (o dan eich enw neu beidio).

Nant y Gamar a ffyngau nyth aderyn

Llun: Gareth Pritchard



Cartref Harry Thomas (dyddiadurwr a naturiaethwr)


Dyma Harry ar 4 Awst 1914: *A fine and sunny day. Find Birds-nest fungi growing in countless numbers in the vegetable garden at Ollerton, between the lines of peas and French Beans...*

Dyddiadur Harry Thomas, Nant y Gamar, Llandudno (Archifdy Conwy)

Tymor hel madarch




Roedd plant Abergwyngregyn yn aros i ffwrdd o'r ysgol pob blwyddyn ar gyfer y cynhaeaf madarch (triwant?). Weithiau byddent yn chwynnu rwdins neu




weithio ar y cynhaeaf gwair ac unwaith daeth yr *Attendance Officer* i'r ysgol i ddelio a'r sefyllfa. Dyma siart (uchod) yn dangos y dyddiadau y cofnododd "y Sgŵl" i hyn ddigwydd

Ymddengys bod y tymor "madarcha" yn Aber wedi dod ynghynt fel yr aeth y ganrif rhagddi. Hyd yma plant Ysgol Abergwyngregyn yw'r unig rai y cafwyd cofnod o hyn ond mae digon o lyfrau log ysgolion ar ôl i wyntyllu. Tybed ai diwydiant lleol yn dibynnu ar agosrwydd y pentref i'r orsaf



dren i Lanfairfechan neu hyd yn oed Lerpwl oedd ysgogiad y weithgaredd. Dyma ddsbarthiad holl gofnodion 'positif' yn y Tywyddiadur sydd yn cynnwys y geiriau mushroom neu madarch. Mae'r cofnodion hyn yn

cynnwys rhai Aber a hefyd rhai o bob math o ffynonellau dyddiedig o bapurau newydd a dyddiaduron, llythrau dros tair canrif yn cofnodi cnydau da (neu weithiau gwael). Awst, Medi a Gorffennaf oedd y penllanw, ond mae'n syndod faint o fadarch oedd yn cael eu casglu yn y misoedd eraill. Ewch yma i weld [y data amrwd](#).



Cofiwch am y gyfrol newydd

(y 4edd yn y gyfres Enwau Anifeiliaid a Phlanhigion

Ffyngau

£4.50

(ar gael yn yr Eisteddfod neu trwy Gymdeithas Edward Llwyd)

Rhyfeddod Trychfilod

Gwalchwyfyn y pigwydd



Gardd DB yn y Waunfawr, 11 Mehefin. Hyd y gwn, mae'r bisgwydden agosaf i fan trapio hwn gryn dair milltir i ffwrdd ym Montnewydd neu Gaernarfon. Ond yn ôl y llyfrau mae o hefyd yn gallu bwyta llwyfen, derw, bedw a gwern.

Cael ei ddal yn ei fagl ei hun...



...neu yn y cyd-destyn efallai mai *hoist on its own patard* sydd yn fwy addas! *That's a doubly interesting photograph, because the victim of the fungus, Conops quadrifasciata is a fly that is itself a parasite of bumblebees - so it's a parasite that has itself been parasitised!*

Phil Gates (Country Diary)

Fe'i cefais gyda hanner dwsin o rai eraill, ac ambell rywogaeth arall o drychfilyn, ar ysgall ar lan yr afon Tywi ger pentre Bethlehem ar 30 Mai 2011


Duncan Brown

The fungus is called Entomophthora probably E. muscae. It infects Scathophaga commonly and other flies including hoverflies. (I can't really make out the flies from the picture but Scathophaga is a common victim). The spores enter the fly possibly through the digestive track or exoskeleton and the fungus grows inside the fly eventually forcing itself between the abdominal plates, hence the visible "white bands" on the fly. The most interesting aspect is that the fly's behaviour is controlled and altered by the fungus and it climbs to the highest point on a plant or window pane, straightens its hindlegs and opens its wings. So when it dies and the spores are released they get the greatest chance of dispersal to infect more flies. The infected dead flies are often seen stuck to window panes with a halo of spores around them.


Debbie Evans

Mae Phil Gates yng ngholofn y "Country Diary" yn ategu beth mae Debbie yn ei ddweud

Ymerawdwr, benywaidd yn brysur yn dodwy, gwarchodfa natur Glascoed, Llanelwy, Mehefin 18. Cyfrannwyd y llun gan Alun Williams



Gwyfyn Ronaldo



Ymosodwyd ar y Stade de France gan filoedd o wyfynod yn gêm olaf Ewro2016 ddydd Sul 10 Gorffennaf. Dan dymheredd o 28C mor hwyr a 1830GMT gwelwyd y gwffynod yn heidio o gwmpas

y chwaraewyr, yr hyfforddwy'r a'r cefnogwyr, ac yn fwyf penodol, ar drwyn Cristiano Ronaldo tra'n ei ddagrau (am rhyw fater bach arall hollol wahanol!). Y penderfyniad i adael goleuadau'r stadiwm ymlaen trwy'r nos gafodd bai. Dyma'r hanes:

<http://worldsoccertalk.com/2016/07/10/moths-invade-stade-de-france-before-euro-final/>

Ac ar ol 30 eiliad o hysbys cyn y ffilm go iawn gwyliwch :

<http://www.msn.com/en-gb/sport/uefa-euro-2016/moths-swarm-around-stadium-before-euro-2016-final/vp-BBua8i1>

Llygad dystion o Baris os gwelwch yn dda!

Am y diweddaraf o fyd y gweision neidr dyma gylchgrawn **Y Fursen**. Ydi gweision neidr yn bwyta adar... efallai eu bod nhw - cliciwch **yma**....

Cofiwch glicio ar y dolenni coch i gael mwy o wybodaeth

Danas Coed y Brenin



Methu coelio'n lwc pan gerddodd y bwch yma tuag ata'i heno (15/06/16) a wedyn gweld pennau'r pedwar arall yn codi yn y cefndir! Sefais yn fy unman gan dal i dynnu lluniau (er gwaetha'r gwybed yn fy mwyta'n fyw) gan wybod fyddai unrhyw symudiad gennyf yn eu dychryn i ffwrdd! Tynnwyd y llun wrth goedwig Coed y Brenin.

Keith O'Brien

Ciconiaid Alsás



Colmar on the 9th. [Mehefin] Saw a lot more subsequently in Strasbourg park and zoo.

Alison Stanford

Ia, mae hi'n dymor y gwyliau. Peidiwch ag anghofio Llên Natur ar eich gwyliau CHI.


Madfall Waunfawr



Daeth y fadfall ddwr hon i'r fei yng ngardd Gwelfor, Waunfawr ar y 10 Gorffennaf 2016. Mae'n debyg mai cyw y flwyddyn oedd hi (fo?), tua modfedd o hyd.

Gill Brown

Gwas neidr Eurdorchog yn Lairg



Hwn wedi glanio ar y wialen bysgota ar Loch Merkland wrth Lairg yn Sutherland yr Alban. Mehefin 2016

Phil Griffith ac Emrys Ilywelyn

Mwy yma. A meddai Iwan Roberts: 'Gwesyn eitha cyffredin yng ngorllewin ynys Prydain, yn bennaf mewn ardaloedd mynyddig. Llun diddorol- y ceiliog yw hwn, mae gan yr iar wyddodydd hir ac amlwg, sy'n ei gwneud yr hwyaf (cyf. 84mm) o'r

gwesynod hebog (*hawker*). Enw gwyddonol: *Cordulegaster boltonii*'

Y fran, y ffenestr - a'r llanast!



Mae brân wedi bod yn brysur yn gneud hyn ar un o ffenestri'r adeiladau yn Barcdy [Talsarnau, Meirion]! Welsom ni rioed y peth yn digwydd o'r blaen. Gweld ar y we fod brain YN gneud hyn - trio mynd at y deryn maen nhw'n weld yn y ffenast. Anwen 'Barcdy' Meddai Haf Meredydd: "Atebais yn cynnig y dylion nhw roi rhwbath du neu sach neu rhwbath y tu mewn i'r ffenast lle bod y frân yn gweld ei hadlewyrchiad".

Cnwpsogl Ruairidh Maclean

Diddorol darllen yn Llên Natur [[Bwletin 101](#)] bod [Gaeliaid yr Alban] yn ystyried *Huperzia selago* yn blanhigyn cyfrin. Cofiaf frawd mamgu yn Llanddewibrefi yn son am gorn carw (sef *lùs a'mhadaidh ruaidh*, *Lycopodium clavatum*). I fi roedd hyd yn oed ei ddisgrifiad o'r planhigyn (un oedd yn 'dirwyn' - yr unig dro i fi glywed berf Gymraeg am trailing....) yn awgrymu bod rhywbeth yn ddirgel am y planhigyn - yn ôl fy ewyrth, mi allech gael gafael arno a wedyn tro nesa mi fyddai wedi llwyr ddiflannu. Ta beth am hynny, cofiai bod gwŷr ifainc yn ei wisgo yn eu lapel fel rhyw arwydd o lwc. Wn i ai am ei fod yn fytholwyrdd neu achos ffurf braidd yn ffalig ei sporophylliaid (neu'r ddau fallai?!). Gwyn Jones

Ewch i [Fwletin 38](#) (tud. 3) i gael mwy o sylwadau Gwyn, ac i [Fwletin 22](#) (blaen) i weld defnydd theatrig Oes Fictoria o'r teulu rhyfeddol hwn o blanhigion.

Selborne 21 Awst 1767 Gilbert White: "The last swift I observe was about twenty-first August; it was a straggler"

Beth am eich wennol ddu olaf chi?

Llyn Llam dda - eto fyth!

Mae'n syndod beth all **llun (Bwl. 94 tud. 4)** ac enw swynol ysgogi o ran hanes lleol. Dyma ddetholiad o sylwadau a gyrhaeddodd Dafydd Thomas yn Eco'r Wyddfafa. Meddai Dafydd yn ei golofn: Llyn Llam Dda- eto! Gan John Fraser Williams, Tai Bryn Afon, Crawia y daeth rwy o hanes y pwl hwn ar afon Gwyrfa, gan egluro pa mor hawdd yw hi weithiau i gangymeryd dau le gwahanol o'r un enw! Dyma sut mae JFW yn adrodd yr hanes: Ers dros hanner canrif bellach, bum yn pysgota yn Mon Seiont. Dechreuais yn y 1960au. Byw yn Llundain oeddwn i, ond byddwn i'n ymweld a Nain yng Nghrawia yn ystod gwyliau ysgol. Roedd fy Nhad yn dipyn o sgotwr hefyd, ac yn mwynhau hel brithyll yn Llyn Tywod ac yn yr ochr isaf, i lawr yr afon o Bont Crawia. Byddai'n cerdded mor bell a Llyn Harri Parri, wrth fferm o'r enw Glanrafon, ond ni fyddai'n 'sgota'r llyn hwn. Esboniodd wrtha'i bod aelod o'r teulu wedi boddi yn y llyn, ac roedd fy Nhad am ddangos parch tuag at ei enaid drwy beidio a sgota yno, er bod Llyn Harri Parri yn lle da (weithiau!) am bysgod mawr. Roedd fy Nhad wedi cael yr hanes gan ei Daid, Robert William Roberts (15/5/1874-5/2/1947). Crydd oedd o, gyda busnes yn Liverpool House, Penisarwaun. Roedd ganddo fo siop yn Neiniolen hefyd, wrth ymyl 'y batri'. Roedd gan Robert Roberts frawd o'r enw William, a fo oedd wedi boddi yn 15 oed. Gweithio fel gwas bach ar fferm o'r enw Glanrafon oedd o ar y pryd, ac felly doedd fy nhad ddim am bysgota yn agos at y lle. Symudais i fyw i Arfon yn y 90au, a phenderfynu hel rhywfaint o hanes fy nheulu, gan gynnwys manylion am William Roberts. Roedd gen i ddyddiad y farwolaeth oherwydd bod carreg fedd ym Mynwent Macpelah, Deiniolen:

"Er cof am WILLIAM Mab William ac Alice Roberts, Caeau Ucha Rd, Ebenezer bu farw Gorph. 7, 1884 yn 15 mlynedd oed".

Es i ati i bori trwy bapurau lleol yn yr Archifdy, a dyma'r canlyniad:

"Yr Herald Cymraeg - Gorphenaf 9, 1884: Boddiad arall - Oddeutu wyth o'r gloch nos Fercher diwethaf, aeth bachgen 15 oed o'r enw William Roberts, o Ebenezer, oedd yn gweithio ar fferm Glanrafon Fawr i ymdrochi i afon Gwyrfa mewn lle a elwir Llyn Llam Da, ger Bontnewydd. Neidiodd i le dros ei ben, a boddyd cyn i gymorth ei gyrhaedd."

Roedd fy Nhad wedi cael y Glanrafon anghywir! Es i a fy rhieni i ymweld a Glanrafon Fawr ac i gael sbec ar Lyn Liam Dda yn y 90au. Roedd perchenogion y fferm yn ymwybodol o'r hanes. Mae Llyn Llam Dda yn ddwfn, ond mae un garreg fawr ychydig o dan wyneb y dŵr. Tybed wnaeth William blymio yn hytrach na neidio, anafu ei ben ar y garreg, a boddi o ganlyniad? Mae'n eironig braidd fod William Roberts wedi marw mewn llyn o'r ffasiwn enw. I ddiweddu ar nodyn mwy positif; cafodd fy Nhad oriau o bleser wedyn, gan hel pysgod Llyn Harri Parri gyda chydwybod clir!

Ymddiheurwn am gamenwi mis Bwletin 101. Gorfennaf 2016 oedd i fod wrth gwrs.

Hanes enwog 'ci-corc' Conwy



Dyma drawsgrifiad o doriad papur newydd a arddangoswyd yn Amgueddfa Storiell, Bangor ym mis Mai 2016. **THE FAMOUS STORY OF A CONWAY CORK DOG**
A cicorc was washed ashore weeks after a ship had disappeared in storms, with all hands feared lost at sea. Any cicorcs found on the shore were taken to the local public house where they were displayed over the bar. It was eventually recognised by one of the sailors who had watched it being made and so it was returned to the family of the sailor who made it.
North of the year, news reached the home port that a sailor had been washed ashore in France. The sailor had remained unconscious for weeks near to the shipping route where the ship was lost and when he finally awoke, he had no memory. He spoke very little and the nurses could not understand what he said. As the months passed, he spoke enough for a visiting doctor from Breton [sic] to work out the language was Welsh and that the man could have been the sole survivor of the wrecked ship. Passage to France was beyond the means of the family, but they asked another seaman who would be berthing at the same French port, to take the cicorc to the sailor in the hope that he would recognise it. When the cicorc was placed in the the [?] sailors hands he seemed to recognise his own handiwork, being the last thing he had done before embarking upon that fateful voyage. He put the cicorc on his bedside table, and over the next few days he fully recovered his memory. He was given safe passage home and within days of the anniversary of his departure, was finally reunited with his family. At this emotional reunion, he was able to personally hand the cicorc to his daughter.

R. D.

Talu am waith mewn da yn y 19g

Un o'r pethau rydw i wedi sylwi arno [yn nyddiadur Edward Edwards, Faenol Isa, Tywyn] yw ei fod yn cofnodi yn fanwl pob tro mae un o'r teulu yn gweithio ar fferm cyfagos a hefyd pob tro mae hwch yn mynd at baedd neu heffer yn mynd at tarw. Oes yna gysylltiad? Hyn a hyn o waith yn cyfnewid am defnyddio ei baedd neu tarw nhw? Mae hefyd yn nodi pa mor aml maent yn mynd i'r felin. Ydyn nhw yn gweithio yno yn cyfnewid am malu blawd i'r teulu?

Rwth Tomos

Roedd talu am wasanaeth baedd neu darw drwy ddulliau heblaw pres (ar ffurf llafur, nwyddau, benthyg offer) yn gyffredin iawn. Un o fy hoff engreiffitiau i oedd yn Nant Gwynant, lle byddai ond un neu ddwy o ffermydd yn dyrnu - ffermydd defaid oedd y gweddill. Ond am y byddai angen criw o tua 10-12 o ddynion o leia i ddyrnu byddai rhai cymdogion yn dwad i helpu yn Hafod y Llan a chael gwasanaeth y tarw am ddiwrnod o ddyrnu. Ffeirio diwrnod o ddyrnu â'u gilydd fyddai pawb yn y gylchdaith ddyrnu fel arfer ond os nad oeddech yn tyfu yd - wel y tarw amdanni...?

Twm Elias

Hanes llafar ar bapur - y cynhaeaf wyau



CLIMMING: *It's been going on donkey's years, the **climbing**. Long before my time al started: me dad used to do it, and me grandad a-front on 'im. They'd st'alt off with their dads, when they were about twelve, I should think: me and inlet brothers all started together, and Grandfather came with us, to show how to carry on. At one time o' day, men used to tek their wives, two men and two wives together: the men would be Glimmer and anchor-man, and the two wives'd help to pull up. But in them days they didn't go so far down as we did. There was more birds about then, and they only climbed top half of cliff, 'cause it was too hard work for women to pull 'em back whole distance. In my time birds had dwindled down, and we had to go right down to bottom, more or less three hundred foot, to get owt at all. Four chaps would get together to make up a gang: you'd have to have four, because you needed three to pull Glimmer up. We'd mostly be farm chaps, who'd arranged to have the six weeks of the season off: or often it might be young married blokes that were out o' work, or short o' money. Because there was no dole for farm workers then: if you'd*

no work, you'd no money, and that's all there was about it — you had to do owt in them days. There might be as high as four or five gangs working here, and there was some more at Flamborough. First of all, you had to rent your patch of cliff off the farmer who owned it. You'd maybe take the length of a field, and you used to barter with eggs for it — you'd promise to give him so many of the eggs you collected: you couldn't pay money, you hadn't any. I've heard me dad say that in his time one farmer would only let 'em have his cliff on condition that they knocked off at turnip-hoeing time, and then they'd go and help hoe his turnips: he wanted to make sure they went to him, because you couldn't ever seem to get enough hands for turnip hoeing in them days. When we started depended on weather to a day or two, but it'd probably be about the 8th or gth of May: we'd start then, and we'd maybe go on for six weeks, though that would vary, too. We'd pick out best spots on our patch, and we clumb those spots every three days. You had to do that, to make sure eggs were fresh: otherwise you'd be getting so many dicky 'uns. Say you went down on 8th May, and collected all the eggs from that spot: well, when you clumb that spot three days later, you'd know all the new eggs couldn't be more than three days old. We'd climb all those spots in strict rotation, in strict order, every three days. When we'd clumb all lot twice over, we called that a 'fling': and we'd have a first, second and third fling during season. You see, we were mainly after guillemots' and razorbills' eggs, and they only lay the one: at least, the young birds only lay the one, but the oldbirds would lay one, and if that was taken, they'd lay another, and they'd lay a third one if you kept taking 'em. And young birds always laid a fraction earlier: 8th of May, if it was good weather, you'd have the young birds' eggs, and by about the 12th the older ones would start. So first fling wasn't so good, because you were only getting young birds' eggs, and only getting them in bits and bats: you might be climbing almost for nowt when you first started. We always reckoned second fling was the best, because then you'd be getting all t'lot: all the old birds, and some of the later young ones as well. That was when we made most of our money. First and second flings were only about three days apart, but you used to reckon about twelve or fourteen days between second and third flings: of course, we used to get oddments in between flings, because they didn't all lay at same time. Third fling wasn't so good as second, because you only got the old birds then, and not all of them, because they wouldn't all lay again. And after that it would be whittling down to where it wasn't paying you, so you'd knock off and go back on farm. At latter end, if any collectors came round and wanted some to blow, you might go down just the once and get 'em, because it didn't matter if they were a bit off, a bit bloodshot-like. **© Country Voices gan Chareles Kightly (Thames and Hudson (1984)**

Mae yna lun a hanes *climbing* yn Country Diary diweddar y Guardian. Oes yna enghreifftiau o hyn o Gymru?

Palmentydd o bren, Paris 1910



Les pavés de bois. À Paris, en 1882, les Champs-Élysées furent pavés en bois et beaucoup de voies de la capitale suivirent.

[Wikipedia](#)

Mae ffyrdd a phalmentydd o bren yn anghof bellach ond roeddynt yn boblogaidd ganrif yn ôl. Ar ôl i'r afon Seine orlifo yn 1910 dyma'r canlyniad, Yn ôl un adroddiad, conwydd o Les Landes, de orllewin Ffrainc oedd y ffynhonnell.

Hel cerrig (parhad o Bwletin 101, tud 7)

I drïo lleihau niwad i'r 'prianna' oedd y rheswm i hel cerrig. Basa cerrig yn medru gwneud llanast i'r gyllall neu i fysadd yr injan. Dw i'n cofio fel bydda Richi Williams, Treddafydd Fawr yn isda'n din clawdd yn hogi o lia un gyllall sbar, tra bydda Alwyn y gwas yn torri'r gwair hefo'r injan a'r Super Major yn ei thynu. (Hynny yw, caea gwair, ddim tir wedi ei hau y tymor hwnnw, ond cae wedi ei hadu tymor cynt neu dir oedd yn cael ei bori cyn cael ei gadw i dyfu'n wair). Roedd ganddo ful i ddal y gyllall i'w hogi. Mul, tebig iawn i ful saer (saw block). Roedd yna ddau huarn, siap 'L 'ben ycha'n isa trwy fwrdd y myl, hefo thred a nytan hefo adan arni i ddal y gyllall yn dynn tra'n cael ei hogi.

Nid oedd pobol yn hel cerrig yr un pryd ym mhob man. Bydda pobol yn trio'i chael hi'n sych i wneud y gwaith. Toeddan nhw chwaith ddim yn medru cadw tir i fod yn wair ar yr un pryd, oherwydd gwahanieutha yn y tywydd, ansawdd y pridd a ffactora arall oedd yn ffeithio ar fel oedd hi'n tyfu, pwysa stoc ac yn y blaen. Diddorol fasa cael gwybod pa rym sydd yn gyrru cerrig i'r wyneb yn y lle cynta!

Wil Williams



Llygad y dydd

CYMDEITHAS
GWAITH MAES
arwain addysg yr amgylchedd yng nghymru

Rhifyn y gwyliau haf

Dyma luniau o Oriol Llên Natur, weithiau yn lun o greadur yn gwneud rhywbeth (llun 3 a 7), llun crand o greadur sydd ond i'w weld am gyfnod byr o'r flwyddyn (1), llun i adnabod y gwahaniaeth rhwng dwy rywogaeth tebyg iawn i'w gilydd (2), llun i ddweud pryd i chwilio am flodyn arbennig (4), llun sy'n dangos cylch bywyd creadur (5), llun sydd yn dod a dau beth annisgwyl at ei gilydd (6), llun sydd yn dangos neu yn gofyn pa fath o greadur (8) neu lun sydd yn dangos pa fath o fwyd mae creadur yn ei hoffi (9).

£10 i'r llun + capswn gorau i gyrraedd y beirniaid erbyn 15 Awst.



1
Bachadain raeanog *Drepana falcatoria*
Pebble Hook-tip Yn y trap 23 Awst 2015,
Gwelfor, Waunfawr Duncan Brown



2
Coegyflfinir a gylfinir. Sylwch ar y gwahaniaeth mewn maint rhwng y ddau, y gylfinir ydy'r mwyaf. Tynnais y llun yn RSPB Conwy, Awst 24. Cynharwch hefyd y pig a thop y pen
Alun Williams



3
Ilwyddiant ! Gwarchodfa natur RSPB, Conwy, Awst 5ed.
Alun Williams



4
brial y gors, *Parnassia palustris*
grass-of-Parnassus: twyni
Niwbwrch, Awst 31, Alun Williams



5
bwrned 6-smotyn a'i chwiler...ar ol i'r naill "ddeor" o'r llall. Tynnwyd y ddau lun yn SO612996 ar 8 Awst 2010. Digon cyffredin mewn gweirdiroedd ar hyd y glannau
Llun: DB




6
Dyma golomen ac enfys drawiadol yn Rhuthun.
Awst 2014. Llun: Gwyn Williams



7
Mam aderyn to yn bwydo'i chyw? Llun wedi ei dynnu ar 31ain Awst 2016
Rwth Tomos



8
chwilen soldiwr *Rhagonyca fulva*
Tynnwyd ymysg blodau'r ardd 1 Awst 2013 Gwelfor, Waunfawr. Mae'n debyg mai gwryw yw hwn - mae'r fenyw yn lletach tua'i phen ôl.
Duncan Brown



9
Copor bach ar **clafrllys y maes**, gwarchodfa natur Glascoed, Llanellwyr, Awst 7ed. Mae dau gnwd o rhain pob blwyddyn, un yn y gwanwyn a'r llall ddiwedd yr haf.
Alun Williams

Nodyn i Mam a Dad (neu Taid a Nain): Dyma gyfle yn ystod y gwyliau i chi ddarllennwyr arferol Llên Natur i annog eich plant neu eich wyrion i ddefnyddio'au camerâu a'u ffonau-smart i gymryd lluniau o'r byd o'u cwmpas (newid bach o'r hun-luniau - y selffis - bondigrybwyll....!). Os byddwch yn treulio'r haf yn eich gardd, yn eich bro, neu ar eich gwyliau pell neu agos, mae cyfle i greu llun â chapsiwn fydd o werth. A be well i ddifyrru'r hen blant dros y gwyliau haf hirfelyn tesog - hmmm....!